Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Llanddoged

**Ysgol Gynradd Llanddoged**
**Llanddoged**
**Llanrwst**
**LL26 0BJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Llanddoged

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Llanddoged |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Gareth Davies |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Anna Probert |
| Nifer y lleoedd | 16 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 3 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 1 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Ddydd Iau 9.00yb – 1.00yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 29/11/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 16/06/2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 21/05/2024 – 22/05/2024 |
| Lleolir y cylch meithrin ar safle ysgol. Maent yn cynnig sesiwn gofal ac addysg rhwng 9.00yb a 11.30yb Dydd Llun i Ddydd Iau. Maent yn cynnig sesiwn meithrin mwy rhwng 11.30yb ac 1.00yp Dydd Llun i Ddydd Iau. | |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Ddim yn berthnasol** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.**

## Argymhellion

A1 Sicrhau fod arsylwadau yn bwydo'r cynllunio er mwyn sicrhau datblygiad a chynnydd ym medrau'r plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron bob plentyn yn hapus, ac yn mwynhau cwmni eu ffrindiau a'u hymarferwyr wrth iddynt gymdeithasu gyda'i gilydd. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn gyson. Maent yn mwynhau'r rhyddid i symud o amgylch yr ardaloedd dysgu, megis y byrddau marcio neu'r twba tywod yn yr awyr agored. Mae bron bob plentyn yn mynd at ymarferwyr neu ymuno o fewn grŵp o ffrindiau yn ôl eu dewisiadau nhw. Maent yn helpu eu hunain i adnoddau yn hyderus gan wybod bod ganddynt y rhyddid i wneud hynny. Er enghraifft, maent yn mwynhau arbrofi gyda thoes, darganfod y bwrdd golau a chwarae gyda'r adnoddau byd bach. Maent yn gyfforddus a hyderus i ofyn am gymorth, megis cefnogaeth i wisgo ffedog, agor llefrith neu ddod o hyd i'w hesgidiau.

Mae bron bob plentyn yn setlo'n gyflym, ac yn mynd ati i chwarae yn hapus, llawn egni a chyffro. Maent yn ymdopi'n dda ac yn teimlo'n ddiogel a chartrefol. Mae bron bob plentyn yn hyderus i alw enwau'r ymarferwyr pan mae angen ac yn dangos bod ganddynt ymdeimlad o berthyn. Maent yn gyfarwydd ag arferion y dydd ac yn gwybod beth sy'n dod nesaf. Maent yn cael boddhad wrth ddatblygu eu dealltwriaeth am eu hunaniaeth, eu cymuned a'u ffrindiau. Er enghraifft, yn ystod byrbryd, maent yn sgwrsio'n hapus am luniau ar wal gyfagos ac yn adrodd am eu profiadau wrth enwi ffrindiau.

Mae bron bob plentyn yn rhyngweithio'n dda ac yn datblygu eu medrau cymdeithasol wrth sgwrsio a rhannu yn eu chwarae. Maent yn parchu teimladau a diddordebau eraill ac yn dysgu i gydweithio a chymryd tro. Er enghraifft, yn yr awyr agored, maent

yn brysur wrth arbrofi yn y gegin fwd. Wrth iddynt sgwrsio a datrys, mae'r plant yn llenwi sosbenni trwm a dŵr o'r ffynnon ddŵr ac eraill yn helpu i weithio'n effeithiol i gario pridd er mwyn cymysgu'r cynnwys. Mae bron bob plentyn yn barod i gefnogi ei gilydd. Er enghraifft, wrth greu cacennau penblwydd gyda thoes, maent yn mwynhau canu a rhifo'r canhwyllau pasta. Mae bron bob plentyn yn datblygu perthnasau agos a chynnes gyda'r ymarferwyr ac yn rhyngweithio'n dda ag ymwelwyr. Maent yn mwynhau dangos beth maent yn gallu cyflawni megis neidio o un lefel i'r llall, dangos olwyn yn troi wrth chwarae a melin ddŵr, neu dangos hunan barch wrth iddynt bilio eu ffrwythau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn frwdfrydig ac yn dyfalbarhau'n fwriadus wrth ddysgu. Er enghraifft, maent yn diddori wrth symud pibau hir er mwyn creu llif ar gyfer ceir. Maent yn canolbwyntio'n ofalus ac yn ymgolli eu hunain yn eu chwarae. Er enghraifft, wrth chwarae rôl yn y siop trin gwallt, maent yn cynnal sgwrs yn ymwneud a thalu, sgwrsio am argaeledd a bwcio apwyntiad gwallt, wrth ddefnyddio llyfr apwyntiadau yn bwrpasol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hyderus i arbrofi yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, maent yn defnyddio camerâu a binocwlars er mwyn edrych am adar a dod o hyd i flodau gwyllt.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da, er enghraifft wrth iddynt olchi a sychu eu dwylo heb gymorth, a bwyta eu byrbryd a chinio. Maent yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau wrth gwblhau tasgau dyddiol fel helpu i dacluso adnoddau a gwisgo eu hetiau haul.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad:Da**

Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn blaenoriaethu eu hiechyd a'u diogelwch yn llwyddiannus. Maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau cadarn yn effeithiol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant priodol a chymorth cyntaf ac yn cadw cofnodion cywir ar gyfer damweiniau a digwyddiadau. Maent yn sicrhau bod gweithdrefnau cadarn yn cael eu dilyn yn ystod cyfnodau byrbryd a chinio wrth iddynt annog y plant i olchi eu dwylo yn rheolaidd. Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant ag alergeddau ac mae ganddynt weithdrefnau clir i weinyddu meddyginiaeth. Maent yn sicrhau urddas a phreifatrwydd llwyr wrth ddilyn polisi newid clytiau ac maent yn cadw cofnodion cywir. Mae gan yr ymarferwyr system gofrestru drwyadl a threfnus ac mae ganddynt gofnodion caniatâd yn eu lle.

Mae gan ymarferwyr berthynas annwyl gyda'r plant ac maent yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn garedig ac yn modelu rhyngweithiadau naturiol, clir a chynnes wrth ddysgu plant i ystyried eu gwerthoedd ac i fod yn glên, i rannu, a chymryd tro. Maent

yn arsylwi, gwrando ac egluro mewn modd gofalgar a thyner sydd yn creu teimlad o berthyn. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cynnig canmoliaeth yn gyson ac yn adnabod medrau y plant wrth eu hannog i geisio rhoi cynnig ar y gweithgareddau. Mae ymarferwyr yn sgwrsio neu'n canu yn gyson sydd yn creu awyrgylch tawel a diogel. Maent yn eistedd wrth y bwrdd gyda'r plant yn ystod cyfnodau byrbryd a chinio, ac yn atgyfnerthu moesau da fel 'os gwelwch yn dda' a 'diolch'.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion a'u dymuniadau unigol. Maent wrth law i gynnig cefnogaeth pan mae plant yn gofyn, er enghraifft, i agor llefrith, newid dillad neu gofyn am adnoddau penodol megis offer digidol. Mae ymarferwyr yn darparu'n dda ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol trwy rwydweithiau effeithiol a gweithdrefnau pwrpasol. Maent yn annog plant i feddwl ac i fod yn hyderus wrth iddynt ddatrys problemau, megis symud neu gario adnoddau i ardaloedd eraill tra'n arbrofi. Mae ymarferwyr yn sicrhau profiadau amrywiol sy'n cymell y plant i ddysgu trwy wneud. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i'r plant i brofi anifeiliaid go iawn trwy groesawu ffermwyr i'r lleoliad ac i roi gynnig ar bethau megis pwyso ŵy hwyaden ac ŵy iar i ystyried pa un yw'r drymach. Maent hefyd yn annog plant i ddeall cylch bywyd lindysyn wrth arsylwi'r broses o gam i gam.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu amrywiol a diddorol sy'n llwyddo i ennyn diddordeb a bodloni anghenion bron bob plentyn yn llwyddiannus. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o'r ffordd mae'r plant yn dysgu drwy chwarae ac arbrofi. Mae'r profiadau dysgu yn annog y plant i ddatblygu'n archwilwyr hyderus yn eu hamgylchedd, er enghraifft drwy fwydo ac arsylwi ar dyfiant lindys a phlannu a gofalu am flodau haul. Trwy hyn, mae gan y plant dealltwriaeth well o'r byd maent yn byw ynddo, a sut i ofalu amdano.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys ac maent yn cyd-gynllunio'n ddeallus i hybu dysgu'r plant trwy amrywiaeth o heriau ymarferol. Maent yn cynnal trafodaethau synhwyrol gyda'r plant ac yn dilyn eu diddordebau'n effeithiol, er enghraifft wrth chwarae rôl yn y siop trin gwallt ac arbrofi gyda blodau yn y twba dŵr.

Mae'r ystod eang o brofiadau dysgu a chwarae tu fewn a thu allan yn llwyddo i greu dysgwyr annibynnol. Mae'r ardaloedd tu allan yn gyfoethog iawn ac mae'r plant wrth eu boddau yn mynd ar y beiciau ac yn llithro lawr y llithren. Mae hyn yn darparu cyfleoedd amrywiol iddynt ddatblygu eu medrau corfforol yn hyderus. Mae'r ardd yn llawn cyfleoedd i ddatblygu medrau creadigol y plant, er enghraifft wrth greu cacen fwd a diodydd amrywiol mewn cynwysyddion lliwgar deniadol.

Mae dulliau addysgu'r ymarferwyr yn llwyddo i ysgogi'r plant i ddatblygu ystod eang o fedrau'n bwrpasol. Mae'r ymarferwyr yn cynnal arsylwadau gan ganolbwyntio ar gyflawniad y plant. Er hyn, nid ydynt yn defnyddio'r arsylwadau o ddatblygiad plant

yn ddigon pwrpasol i fwydo'r cynllunio ac i lywio'r camau nesaf yn eu dysgu a'u chwarae er mwyn datblygu cynnydd ym medrau'r plant.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd cynnar y plant yn effeithiol. Mae llyfrau wedi eu lleoli mewn sawl ardal ac mae'r plant yn eu dewis yn hyderus ac yn rhannu gyda'i ffrindiau. Mae'r ymarferwyr yn holi'r plant yn ddeallus wrth iddynt greu marciau gyda phaent a phensiliau ac yn annog y plant i gyd-ganu caneuon cyfarwydd yn hwyliog. Trwy hyn, maent yn annog datblygiad llafar Cymraeg y plant yn effeithiol. Lle mae'r arfer hon ar ei gorau, mae'r ymarferwyr yn bwydo iaith gyfoethog yn gyson, er enghraifft wrth drafod y fwydlen yng Nghaffi'r Llan a chefnogi'r plant i rolio a gwasgu'r clai yn yr ardal hydrin.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i wella medrau digidol cynnar y plant, trwy ddefnyddio teganau rhaglenadwy a llechen gyfrifiadurol yn hyderus. Maent yn herio plant yn effeithiol i ddatblygu eu medrau rhifedd ac yn ymestyn dealltwriaeth y plant trwy eu holi'n fedrus wrth chwarae. Er enghraifft mae'r plant yn cael cyfleoedd da i drefnu blodau yn ôl maint a defnyddio arian yn y siop trin gwallt. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn annog y plant i adnabod rhifau yn yr amgylchedd, er enghraifft wrth gyfri wyn bach yn y caeau cyfagos a pharcio beiciau wrth y rhifau cywir.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o'u ardal lleol yn effeithiol drwy wahodd pobl o'r gymuned i sgwrsio am eu hanifeiliaid anwes. Maent hefyd yn dathlu Cymreictod y plant yn bwrpasol drwy chwarae cerddoriaeth Gymraeg yn rheolaidd a gwahodd ymwelydd i'r cylch i ganu hwiangerddi amrywiol gyda'r plant ar Ddydd Miwsig Cymru. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn dda. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd i ddathlu amrywiaeth ddiwylliannol drwy ddysgu am wyliau megis Diwali. Trwy gyfrwng y gwaith hwn mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu medrau creadigol yn effeithiol drwy greu patrymau Hena gyda phaent a chreu daliwr bwlb gyda chlai.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel a glân ac mae ganddynt giatiau i ardaloedd allanol y lleoliad sy'n cael eu rheoli'n ofalus gan yr ymarferwyr. Mae ymwelwyr yn mewngofnodi'n brydlon ac mae ymarferwyr yn cadw'r holl gofnodion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn ddiogel ar y safle. Mae cofnodion cynnal a chadw'r adeilad yn gyfredol ac mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferion tân yn digwydd yn rheolaidd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad ac offer diogelu'r amgylchedd yn cael eu gwasanaethu yn rheolaidd, er enghraifft, yr offer trydanol, tân a chymorth cyntaf. Mae arweinwyr yn cynnal asesiadau risg effeithiol a phwrpasol. Mae rhain yn cael eu hadolygu a'u defnyddio mewn modd prydlon ac effeithiol. Mae arweinwyr yn cadw cofrestr plant ac ymarferwyr, ac yn sicrhau bod cymarebau ymarferwyr i blant yn gywir ar bob adeg. Maent yn cynnig bwrdd gwybodaeth sydd yn arddangos tystiolaeth glir am bolisïau, tystysgrifau a gweithdrefnau diogelu priodol.

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd o ansawdd da sydd yn groesawgar a chynnes. Maent yn sicrhau diogelwch, preifatrwydd a lle ar gyfer y nifer o blant sydd yn mynychu'n ddyddiol. Mae arweinwyr yn darparu toiledau addas a chyfleusterau newid clytiau pwrpasol. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r lleoliad a'r cyfleusterau ar y safle megis ardal storio cotiau a bagiau'r plant. Yn y brif ystafell mae arweinwyr yn darparu basgedi o ddillad ac esgidiau tywydd gwlyb, sydd o fewn eu cyrraedd ac yn hybu eu annibyniaeth. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd tu fewn a thu allan yn cynnig mynediad parhaus i blant gael chwarae. Maent wedi creu amgylchedd ysgogol a chyffrous yn yr ardaloedd tu allan, megis yr ardal goch a'r ardd, sy'n cynnig heriau a chyfleoedd pwrpasol i blant gymryd risg a datblygu chwilfrydedd. Er enghraifft, yn yr ardd mae gan blant mynediad i gyfleoedd cyfoethog i fwynhau garddio, arbrofi a defnyddio offer go iawn fel sosbenni a bwcedi. Mae arweinwyr yn cynllunio ardaloedd dysgu cyffrous. Er enghraifft, ardaloedd chwarae rôl, gorsaf marcio, cornel stori, a chaffi'r Llan. Maent yn sicrhau cydbwysedd da rhwng hyrwyddo diogelwch i blant a'u cefnogi i fentro. Er enghraifft, maent yn cael y cyfle i brofi byd natur yn ardal wyllt yr ardd.

Mae arweinwyr yn darparu adnoddau amrywiol i blant ar gyfer eu datblygiad a'u hoedran, a'u gosod ar lefelau isel. O ganlyniad, mae gan blant fynediad rhwydd at gyfarpar o safon dda, sydd yn eu galluogi i ddewis a dilyn eu diddordebau. Tu fewn, mae plant yn cael cyfleoedd di-ri i faethu eu medrau, megis datblygiad eu dychymyg wrth brofi adnoddau go iawn fel sychwyr gwallt. Mae'r ardal goch tu allan yn galluogi plant i ddatblygu eu medrau corfforol yn effeithiol, er enghraifft, wrth iddynt ddysgu i rheoli beiciau ar arwynebau llethr. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn annog datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn dda trwy gynnig profiadau ac adnoddau iddynt ddysgu am eu cymuned, am amrywiaeth ac am y byd amlddiwylliannol. Er enghraifft, mae ganddynt ystod o ddoliau a llyfrau o wledydd y byd. Yn ogystal, maent yn darparu arddangosfeydd o luniau am eu gwaith gyda'r gymuned ac yn dathlu dyddiadau penodol megis ymwelydd ar gyfer Dydd Miwsig Cymru i ddyfnhau dealltwriaeth y plant.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth gadarn ar gyfer y lleoliad, sy'n cael ei chyfleu'n glir yn y datganiad o ddiben. Mae hapusrwydd a diogelwch pob plentyn yn ganolog i'w waith. Maent yn cynnig y gofal gorau posibl mewn awyrgylch hapus a chartrefol gan roi cyfle i bob plentyn ddysgu a datblygu i'w lawn botensial. Mae'r arweinwyr yn deall eu cyfrifoldebau rheoliadol ac yn cadw polisïau yn unol â'r safonau gofynnol cenedlaethol.

Mae trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant y lleoliad yn effeithiol. Trwy weithgareddau hunanwerthuso pwrpasol, mae'r arweinwyr yn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn llwyddiannus. Er enghraifft maent wedi adnabod yr angen i ddatblygu'r ardal allanol er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer y plant ac wedi gweithredu ar hyn yn llwyddiannus.

Mae'r arweinwyr yn blaenoriaethu gwariant y gyllideb a grantiau yn erbyn targedau yn effeithiol. Maent yn dyrannu adnoddau'n ddoeth er mwyn cyfoethogi profiadau'r

plant. Er enghraifft, adnoddau ar gyfer yr ardal tu allan i ddatblygu sgiliau corfforol a datrys problemau'r plant yn effeithiol.

Mae'r ymarferwyr ac arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm sy'n hyrwyddo awyrgylch ysgogol a chefnogol ar gyfer y plant. Maent yn ymgymryd â hyfforddiant pwrpasol i wella eu harferion addysgu a gofal. O ganlyniad, maent yn llawn cymhelliant ac yn awyddus i lwyddo. Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol. Maent yn diffinio rolau a chyfrifoldebau staff yn briodol. Mae'r arweinwyr yn meddu ar system effeithiol o oruchwylio ac arsylwi ar ymarferwyr, sy'n arwain at dargedau cytunedig.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n agos gyda swyddogion yr awdurdod lleol a mudiadau eraill i wella'r ddarpariaeth a'r canlyniadau i blant. Mae gan y lleoliad bartneriaeth gynhyrchiol iawn â'r ysgol gynradd leol y mae wedi ei leoli ynddi i gefnogi'r broses bontio. Er enghraifft, mae'r plant yn bwyta cinio gyda phlant yr ysgol yn ddyddiol ac yn cyd-chwarae gyda hwy allan amser chwarae. Mae hyn yn gymorth i'r plant pan ddaw'r amser iddynt drosglwyddo i'r ysgol gynradd. Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr berthynas gadarn â rhieni a gofalwyr. Maent yn cyfathrebu'n gyson â nhw er mwyn gwella lles a dysgu'r plant o ddydd i ddydd. Mae'r lleoliad yn defnyddio 'ap' digidol i adrodd ar ddatblygiad y plant drwy luniau ac i hysbysu rhieni a gofalwyr o negeseuon pwysig yn rheolaidd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/07/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I’w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |
| 29 | There were no records of staff having received any supervision meetings with leaders, and staff confirmed that they had not received any supervision. | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 24 Gorffennaf 2024